Arholiadau Ysgoloriaethau a Gwobrau Teilyngdod
Prifysgol Aberystwyth
Chwefror 2025

Y Gyfraith

Amser - 1.5 awr

Atebwch **DRI** chwestiwn

1. Trafodwch y rhan y mae'r gyfraith yn ei chwarae yn **un** o'r meysydd canlynol. Esboniwch pam y gallai fod yn ddadleuol. Trafodwch sut ac i ba raddau y gallai'r gyfraith gyfrannu at ddatrys y problemau yn y maes a ddewiswch:
    a. Ewthanasia
    b. Cyffuriau adloniant
    c. Deallusrwydd artiffisial
    d. Defnyddio dronau mewn gwrthdaro milwrol

2. 'Rhaid i gyfiawnder gael ei weld yn cael ei weinyddu' (yr Arglwydd Hewart). Esboniwch beth yw ystyr y datganiad hwn yn eich barn chi.

3. Drafftiwyd deddf yn ymwneud â rheoli parc cyhoeddus yn Aberystwyth. Mae'n dweud, yn syml, "Gwaherddir cerbydau o bob math ar y tiroedd hyn." Chi yw'r barnwr sy'n gorfod dod i benderfyniad yn achosion yr unigolion canlynol:

    a) Dyn sy'n defnyddio ei gadair olwynion drydan.

    b) Bachgen sy'n reidio ei sgwter trydan.

    c) Menyw sy'n gwthio pram.

Yn eich barn chi, pa rai o'r unigolion hyn sy'n euog, os oes un o gwbl? Esboniwch eich rhesymeg ym mhob achos.

4. "Mae swyddogion yr heddlu yn gyfrifol am gadw'r cyhoedd yn ddiogel ac mewn trefn. Maen nhw'n gweithio i leihau troseddu, atal ofn troseddu, a magu hyder yn y gymuned.".

A yw gwasanaeth yr heddlu yn offeryn effeithiol ynteu'n offeryn aneffeithiol yn y system cyfiawnder troseddol? Rhowch enghreifftiau a rhesymau am eich ateb.

5. Nod Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 yw '... sicrhau diogelwch ar-lein' trwy wneud cwmnïau technoleg yn atebol yn ariannol ac yn droseddol am fethu ag amddiffyn defnyddwyr eu llwyfannau (yn enwedig plant).

Ydych chi'n cytuno y dylai sicrhau diogelwch ar-lein fod yn gyfrifoldeb i'r llwyfannau a'r cwmnïau technoleg, neu ydych chi'n credu y dylid rhoi mwy o gyfrifoldeb ar eraill, er enghraifft defnyddwyr a rhieni?